

Canllawiau atodol ar ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol

Cynnwys

Gwybodaeth am yr arweiniad hwn a sut mae'n berthnasol i chi	2
Adran 1: Datgelu gwybodaeth gyfrinachol am gleifion, gyda neu heb ganiatâd	4
Adran 2: Golwg a gyrru diogel – beth i'w wneud os yw golwg claf yn golygu efallai nad yw'n addas i yrru	6
Adran 3: Datgeliadau eraill er budd y cyhoedd	9
Adran 4: Cydymffurfio ag ymchwiliadau allanol	11

Gwybodaeth am yr arweiniad hwn a sut mae'n berthnasol i chi

1. Rydym wedi llunio'r canllawiau hyn i helpu ein cofrestrwyr mewn sefyllfaoedd lle mae angen iddynt ystyried y gofyniad proffesiynol i gynnal cyfrinachedd ochr yn ochr â'r angen i sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd. Mae'r cofrestryddion wedi dweud wrthym y gall hyn fod yn gymhleth ac yn ddryslud. Mae ein hymchwil wedi dangos i ni, yn enwedig lle nad yw claf yn addas i yrru, nad yw'r rhai sydd wedi cofrestru yn glir ynghylch sut i ymateb¹ ac felly mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio'n bennaf ar sefyllfaoedd o'r fath. Nid yw'n creu gofynion newydd nac yn rhoi cyngor cyfreithiol.
2. Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Fferyllol, y mae'n rhaid i bob optometrydd ac optegydd sy'n cyflenwi eu cymhwysio i'w practis. Ar gyfer optometryddion sy'n fyfyrwyr ac optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr, dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol. Cyfeirir at y ddau fel y 'Safonau' yn y ddogfen hon er hwylustod darllen.
3. Nodir safon y cyfrinachedd a ddisgwylir gan gofrestryddion yn Safon 14 y *Safonau Ymarfer* (Safon 13 *Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol*).

Mae hyn yn nodi'r canlynol:

14. Maintain confidentiality and respect your patients' privacy

- 14.1 Keep confidential all information about patients in compliance with the law, including information which is handwritten, digital, visual, audio or retained in your memory.
- 14.2 Ensure that all staff you employ or are responsible for, are aware of their obligations in relation to maintaining confidentiality.
- 14.3 Maintain confidentiality when communicating publicly, including speaking to or writing in the media, or writing online including on social media.
- 14.4 Co-operate with formal inquiries and investigations and provide all relevant information that is requested in line with your obligations to patient confidentiality.

- 14.5 Provide an appropriate level of privacy for your patients during consultation to ensure that the process of information gathering, examination and treatment remains confidential. Different patients will require different levels of privacy and their preferences must be taken into account.
- 14.6 Only use the patient information you collect for the purposes it was given, or where you are required to share it by law.
- 14.7 Securely store and protect your patient records to prevent loss, theft and inappropriate disclosure, in accordance with data protection law. If you are an employee, then this would be in accordance with your employer's storage policy.
- 14.8 Confidentially dispose of patient records when no longer required in line with data protection requirements.

4. Mae'r safon sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd wedi'i nodi yn Safon 11 y *Safonau Ymarfer* (Safon 10 *Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol*). Mae hyn yn nodi'r canlynol:

¹¹ <https://www.optical.org/download.cfm?docid=5DF7A3E0-9D9D-42EE-A5851C2308601A97>

11. Protect and safeguard patients, colleagues and others from harm

- 11.1 You must be aware of and comply with your legal obligations in relation to safeguarding of children, young people and vulnerable adults.
- 11.2 Protect and safeguard children, young people and vulnerable adults from abuse.
You must:
- 11.2.1 Be alert to signs of abuse and denial of rights.
 - 11.2.2 Consider the needs and welfare of your patients.
 - 11.2.3 Report concerns to an appropriate person or organisation.
 - 11.2.4 Act quickly in order to prevent further risk of harm.
 - 11.2.5 Keep adequate notes on what has happened and what actions you took.
- 11.3 Promptly raise concerns about your patients, colleagues, employer or other organisation if patient or public safety might be at risk and encourage others to do the same. Concerns should be raised with your employing, contracting, professional or regulatory organisation as appropriate. This is sometimes referred to as 'whistle-blowing' and certain aspects of this are protected by law.
- 11.4 If you have concerns about your own fitness to practise whether due to issues with health, character, behaviour, judgement or any other matter that may damage the reputation of your profession, stop practising immediately and seek advice.
- 11.5 If patients are at risk because of inadequate premises, equipment, resources, employment policies or systems, put the matter right if that is possible and/or raise a concern.
- 11.6 Ensure that any contracts or agreements that you enter into do not restrict you from raising concerns about patient safety including restricting what you are able to say when raising the concern.
- 11.7 Ensure that when reporting concerns, you take account of your obligations to maintain confidentiality as outlined in standard 14.

5. Nid yw'r gofyniad i gadw cyfrinachedd yn absoliwt a gellir ei ddiystyru mewn achosion lle mae hyn er budd y cyhoedd, fel lle mae risg o niwed i'r cyhoedd.

6. Dylech ddefnyddio eich crebwyll i gymhwyso'r canllawiau sy'n dilyn eich ymarfer eich hun a'r amrywiaeth o leoliadau y gallech chi weithio ynddynt.

7. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y canllawiau hyn neu sut i'w rhoi ar waith, dylech ystyried gofyn am gyngor pellach a allai, yn dibynnu ar natur eich cwestiwn, gynnwys cysylltu â chydweithwyr proffesiynol priodol, eich cyflogwr, eich darparwr yswiriant indemniad proffesiynol, eich corff proffesiynol neu gynrychiolydd, neu gael cyngor cyfreithiol annibynnol. Gall optometryddion sy'n fyfyrwyr ac optegwyr cyflenwi hefyd ofyn am gyngor gan eu tiwtor, eu goruchwyliwr neu eu darparwr hyfforddiant.

Adran 1: Datgelu gwybodaeth gyfrinachol am gleifion, gyda neu heb caniatâd

8. Fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, efallai y cewch eich hun mewn sefyllfaoedd lle mae cleifion yn datgelu gwybodaeth y maent yn disgwyl i chi ei chadw'n gyfrinachol, neu lle rydych yn cael gwybodaeth gyfrinachol am eich cleifion. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhaid i chi gadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol oni bai fod y claf yn rhoi caniatâd clir neu ddealedig i chi ei datgelu.

9. Dim ond mewn amgylchiadau penodol y mae caniatâd dealedig yn berthnasol. Gallwch ddibynnu ar ganiatâd dealedig i rannu gwybodaeth gyfrinachol â'r rheini sy'n darparu (neu'n cefnogi darparu) gofal uniongyrchol i'r claf, ar yr amod bod pob un o'r canlynol yn berthnasol:
 - a. bod y sawl sy'n cael neu'n derbyn yr wybodaeth yn darparu neu'n cefnogi gofal y claf;
 - b. mae gwybodaeth ar gael yn rhwydd i gleifion yn egluro sut y bydd eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio (er enghraifft, mewn taflenni, posteri, ar wefannau neu wyneb yn wyneb), ac mae ganddynt hawl i wrthwynebu;
 - c. nid yw'r claf wedi gwrthwynebu;
 - d. mae unrhyw un y datgelir gwybodaeth gyfrinachol iddo yn deall ei fod yn cael ei roi iddynt yn gyfrinachol, a rhaid iddynt barchu hynny.

10. Mae rhagor o wybodaeth am ganiatâd yn gyffredinol, a chaniatâd dealedig ar gael ar dudalen 13 [canllawiau cydsynio'r GOC](#).

Datgelu gwybodaeth gyda chaniatâd

11. Os nad ydych chi'n rhannu gwybodaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill er mwyn darparu (neu gefnogi'r gwaith o ddarparu) gofal uniongyrchol i glaf, dylech bob amser geisio cael caniatâd penodol eich claf i ddatgelu gwybodaeth sensitif amdano, oni bai bod unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:
 - a. byddai cael caniatâd yn mynd yn groes i bwrpas y datgeliad (er enghraifft, lle byddai risg o niwed i eraill; lle byddai canfod trosedd difrifol yn cael ei rwystro); neu
 - b. rydych eisoes wedi gwneud y penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd ac y byddai cael caniatâd yn ddiystyr neu'n docynistaidd;
 - c. nad yw'r claf yn gallu rhoi caniatâd o ganlyniad i anabledd, salwch neu anaf. Cyfeirir at allu claf i roi caniatâd fel ei 'alluedd' i gydsynio. I gael rhagor o wybodaeth am alluedd, gan gynnwys beth i'w wneud os nad oes gan glaf alluedd, darllenwch ein [canllawiau cydsynio](#).

12. Pan fydd eich claf yn rhoi caniatâd penodol i chi ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol amdano, rhaid i chi sicrhau ei fod yn gwybod beth mae'n cydsynio iddo (gweler Safonau 2 a 3 y Safonau Ymarfer, a'n [canllawiau cydsynio](#)) a'i fod yn glir pa wybodaeth fydd yn cael ei datgelu, pam mae'n cael ei datgelu ac i ba unigolyn neu awdurdod. Os ydych chi'n dibynnu ar ganiatâd dealedig (gweler paragraff 10 uchod), ni ddylai cleifion gael eu synnu o wybod sut mae eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio; os byddai'r wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn ffyrdd na fyddai cleifion yn eu disgwyl yn rhesymol, dylech geisio caniatâd penodol ar gyfer hyn gan y claf.
13. Mae'n bwysig cofio bod gan gleifion sydd â'r gallu i gydsynio yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac i wrthod cydsyniad, hyd yn oed os ydych chi neu eraill o'r farn bod y penderfyniad yn annoeth. Os bydd claf yn gwneud penderfyniad yn groes i gyngor clinigol, dylech gofnodi hyn yng nghofnodion y claf fel ei bod yn glir i bawb sy'n ymwneud â gofal y claf hwnnw.

Datgelu gwybodaeth heb ganiatâd

14. Os nad yw claf yn rhoi caniatâd penodol i chi ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol amdanynt, ac os na allwch ddibynnu ar ganiatâd dealedig, efallai y bydd amgylchiadau o hyd lle y gallwch drosglwyddo'r wybodaeth i awdurdod priodol, megis lle mae hynny er budd y cyhoedd, neu lle mae gofyniad cyfreithiol i chi wneud hynny.
15. Mewn rhai amgylchiadau, felly, gall datgelu heb ganiatâd fod yn briodol. Os felly, mae rhai pethau y mae angen i chi eu hystyried ac rydym yn trafod y rhain yn fanwl yn y canllawiau hyn. Mae angen gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid datgelu gwybodaeth fesul achos a dim ond ar ôl ystyried yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael i chi ar y pryd.
16. Mae nifer o sefyllfaoedd penodol y gallech eu hwynebu yn ymarferol yn cael eu trafod yn fanylach yn y canllawiau hyn, gan gynnwys: trosglwyddo gwybodaeth yng nghyswllt addasrwydd claf i yrru, a gwneud datgeliad i gydymffurfio ag ymchwiliadau allanol.

Cadw cofnod o ddatgelu

17. P'un ai a ydych chi'n datgelu gwybodaeth gyda neu heb ganiatâd y claf, dylech gadw cofnod o hynny a dogfennu pa wybodaeth rydych chi'n ei datgelu ac i ba berson/corff rydych chi'n ei datgelu. Dylech hefyd gofnodi unrhyw ymgais i geisio caniatâd i ddatgelu gwybodaeth neu, os nad yw'n briodol gofyn am ganiatâd, y rhesymau pam nad yw'n briodol. Dylech hefyd ddweud wrth y claf am y datgeliad yn ysgrifenedig (oni bai nad yw'n ymarferol neu y byddai'n tansellio pwrpas y datgeliad) a dogfennu eich bod wedi gwneud hyn.

Diogelu data

18. Rhaid i bob datgeliad gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth \(ICO\)](#).

Adran 2: Golwg a gyrru diogel – beth i'w wneud os yw golwg claf yn golygu efallai nad yw'n addas i yrru

19. Efallai y byddwch yn dod ar draws sefyllfaoedd lle rydych yn credu bod golwg claf yn golygu efallai na fydd yn addas i yrru.
20. Isod, rydym yn nodi gofynion cyrff llywodraethu gyrwyr a gyrwyr yn y DU, y ffyrdd y dylech gyfathrebu â chlaf wrth roi cyngor iddo efallai nad yw'n addas i yrru, a phryd y dylech ddatgelu'r wybodaeth hon i rywun ar wahân i'r claf.

Yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) a'r Asiantaeth Gyrwyr Cerbydau (DVA)

21. Y DVLA yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a'r DVA yng Ngogledd Iwerddon yw asiantaethau'r llywodraeth sy'n cofrestru ac yn rhoi trwyddedau i yrwyr yn y DU. Fel rhan o'u rôl yn cofrestru ac yn trwyddedu gyrwyr, maent yn gyfrifol yn gyfreithiol am benderfynu a yw rhywun yn feddygol gymwys i yrru a chadw ei drwydded.
22. Mae'r DVLA yn cyhoeddi [canllawiau](#) i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar asesu addasrwydd i yrru sy'n cynnwys y safonau meddygol ar gyfer trwyddedu gyrwyr. Mae canllawiau penodol ar brofion golwg yn ogystal â chyflyrau iechyd eraill y gallech ddod ar eu traws yn ystod ymgynghoriad.
23. Mae'r safonau meddygol yn y canllawiau yn berthnasol i'r DU gyfan, gan gynnwys Gogledd Iwerddon.

Cyfrifoldebau gyrwyr

24. Mae gan yrwyr trwyddedig gyfrifoldeb gyfreithiol i roi gwybod i'r DVLA/DVA am unrhyw gyflwr meddygol sydd ganddynt a allai effeithio ar eu gallu i yrru'n ddiogel.

Eich cyfrifoldebau

25. Dylech roi gwybod i'r DVLA/DVA:
- eich bod wedi asesu nad yw claf yn ddiogel i yrru o bosibl;
 - eich bod o'r farn na fyddant neu na allant roi gwybod i'r DVLA/DVA eu hunain;
 - mae gennych bryder am ddiogelwch ar y ffordd yng nghyswllt y claf a/neu'r cyhoedd yn ehangach.
26. Wrth asesu a yw claf yn ddiogel i yrru ai peidio, dylech fod yn ymwybodol o [ganllawiau'r DVLA](#), a chyfeirio atynt, yn enwedig y bennod ar anhwylderau gweledol, sy'n amlinellu'r safonau golwg cyfreithiol y mae'n rhaid i bob gyrrwr trwyddedig eu bodloni.
27. Os byddai golwg wedi'i gywiro claf yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer gyrru, ond na fyddai ei olwg heb ei gywiro yn gwneud hynny, gallai hyn olygu nad yw'n ddiogel i yrru os yw'n dewis gyrru heb lensys cywiro.
28. Dylech fod yn ymwybodol bod safonau uwch ar waith ar gyfer gyrrwyr bysiau a lorïau nag ar gyfer gyrrwyr ceir a beicwyr modur, a cheir manylion am y rhain yng nghanllawiau'r DVLA y cyfeirir atynt uchod.
29. Os nad ydych yn siŵr a yw claf yn bodloni'r safonau gofynnol dylech ystyried gofyn am gyngor cydweithiwr proffesiynol neu eich cyflogwr, neu geisio cyngor ymgynghorwyr meddygol DVLA/DVA.

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n meddwl nad yw claf yn ddiogel i yrru?

30. Os ydych chi, yn eich barn broffesiynol, o'r farn nad yw claf yn ddiogel i yrru, dylech egluro hyn yn glir i'r claf a'ch rhesymau dros hyn. Gyda chaniatâd y claf, dylech drafod eich pryderon gyda'i deulu a/neu ofalwr os yw'n briodol (e.e. os yw'n mynd i apwyntiadau gyda'r claf, neu os yw'n byw gyda'r claf).
31. Dylech chi gynghori'r claf i roi'r gorau i yrru ar unwaith.
32. Dylech roi gwybod i'r claf bod ganddo gyfrifoldeb cyfreithiol i roi gwybod i'r DVLA/DVA am unrhyw gyflwr a allai effeithio ar ei allu i yrru'n ddiogel a rhoi rhagor o wybodaeth iddo am sut i gysylltu â'r DVLA/DVA.
33. Dylech roi gwybod i'r claf bod dyletswydd arnoch i roi gwybod i'r DVLA/DVA eich hun os bydd claf, yn eich barn broffesiynol chi, naill ai'n gwrthod neu'n methu gwneud hynny, a bod unrhyw bryder ynghylch diogelwch y claf a/neu'r cyhoedd yn gyffredinol. I gael rhagor o wybodaeth am y camau y dylech eu cymryd mewn sefyllfaoedd o'r fath, gweler yr adran isod ar 'datgelu i'r DVLA/DVA heb ganiatâd'.
34. Dylech hefyd ystyried a oes angen i chi roi gwybod i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, fel meddyg teulu'r claf os yw'n bosibl, a thrafod â'r claf pam eich bod yn meddwl bod hyn yn briodol.

35. Os yw gyrru'n berthnasol i alwedigaeth y claf, dylech ei gynghori i roi gwybod i'w gyflogwr².
36. Dylech nodi unrhyw gyngor yn ysgrifenedig a chadw cofnod clir o'ch gweithredoedd gan gynnwys unrhyw ohebiaeth, er enghraifft, gyda'r claf, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ac asiantaethau allanol eraill, yn ogystal â chofnodi a yw'r claf yn dweud y bydd yn rhoi gwybod i'r DVLA/DVA ei hun. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Safon 8 y *Safonau Ymarfer*.
37. Os ydych chi wedi dilyn yr holl gamau uchod, ond eich bod o'r farn na fydd neu na all y claf roi gwybod i'r DVLA/DVA ei hun, gweler yr adran isod am y camau y dylech eu cymryd i ddatgelu gwybodaeth i'r DVLA/DVA.

Datgelu i'r DVLA/DVA heb ganiatâd

38. Os yw'r meini prawf ym mharagraff 25 yn berthnasol, ac nad ydych yn gallu gofyn am ganiatâd gan eich claf, dylech roi gwybod i'r DVLA/DVA os ydych yn credu y bydd claf yn parhau i yrru er gwaethaf y cyngor i beidio â gwneud hynny.
39. Wrth ddatgelu gwybodaeth i'r DVLA/DVA dylech:
- a. yn gyntaf, roi gwybod i'r claf eich bod yn bwriadu rhoi gwybod i'r DVLA/DVA a bod gennych ddyletswydd i gydweithredu'n llawn â'r DVLA/DVA a darparu'r holl wybodaeth berthnasol yn ôl y gofyn;
 - b. rhoi gwybod i'r DVLA/DVA (nodir y manylion cyswllt cyfredol isod) a darparu'r holl wybodaeth berthnasol y gofynnir amdani;
 - c. ystyried a oes angen i chi roi gwybod i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, fel meddyg teulu'r claf, os yw'n bosibl;
 - d. cadw cofnod clir o'ch gweithredoedd ac unrhyw gyngor a roddir. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at Safon 8 y *Safonau Ymarfer* (Safon 7 yn y *Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol*).
40. Y DVLA/DVA sy'n penderfynu yn y pen draw a ddylid diddymu trwydded yrru ai peidio a gall wneud ymholiadau pellach a/neu ofyn am asesiadau pellach i ganfod a ddylid diddymu trwydded y claf.

Cyfathrebu'n effeithiol â chleifion

² Er bod y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ddiogelwch ar y ffyrdd, mae'r egwyddorion hefyd yn berthnasol i yrwyr trafnidiaeth arall (gan gynnwys rheilffyrdd), morwyr a pheilotiaid. Os ydych chi'n poeni bod gweledigaeth gyrrwr trên, peilot neu forwr yn golygu efallai na fydd yn gallu gwneud ei waith yn ddiogel, gallwch gysylltu â'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, Awdurdod Hedfan Sifil y DU neu Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau am gyngor.

41. Dylech gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol â'ch cleifion a rhoi gwybodaeth iddynt mewn ffordd y gallant ei deall. Gall rhoi gwybod i glaf y gallai fod yn rhaid iddo roi'r gorau i yrru fod yn bwnc sensitif ac anodd ei godi a dylech gyfleu hyn gydag empathi a thosturi. Gallai rhoi gwybodaeth i gleifion am yr adnoddau y gallant eu defnyddio i gael cymorth, er enghraifft am ddulliau eraill o deithio, fod yn ddefnyddiol.
42. I gael rhagor o wybodaeth am gyfathrebu'n effeithiol â chleifion, cyfeiriwch at Safonau 2 a 4 y *Safonau Ymarfer*.
43. Mae siart llif sy'n dangos y broses i'w dilyn wrth wneud penderfyniad ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon.

Manylion cyswllt:

DVLA (Cymru, Lloegr a'r Alban)

medadviser@dvla.gsi.gov.uk

01792 782337 (10.30am-1pm, Llun-Gwener)

01792 761104 (ffacs)

Grwp Gyrwyr y Cynghorwyr Meddygol

DVLA

Abertawe

SA99 1DA

DVA (Gogledd Iwerddon)

dva@infrastructure-ni.gov.uk

0300 200 7861 (9am-5pm, Llun-Gwener)

Adran Feddygol y Gyrwyr, DVA

Castlerock Road

Waterside

Coleraine

BT51 3TB

:

Adran 3: Datgeliadau eraill er budd y cyhoedd

44. Efallai y bydd amgylchiadau eraill lle mae risg o niwed difrifol i unigolion neu'r cyhoedd yn gyffredinol ac, yn unol â hynny, mae angen i chi benderfynu a oes budd i'r cyhoedd mewn datgelu gwybodaeth sy'n drech na'ch dyletswydd cyfrinachedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):
- tystiolaeth o amheuaeth o gam-drin;
 - tystiolaeth o droseddau difrifol, gan gynnwys terfysgaeth³;
 - tystiolaeth o glefydau heintus difrifol neu glefydau trosglwyddadwy.
45. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac efallai y bydd amgylchiadau eraill lle bydd angen i chi gydbwysu eich dyletswyddau diogelu'r cyhoedd a chyfrinachedd cleifion. Ym mhob sefyllfa o'r fath, dylech ddilyn yr un broses feddwl a nodir isod.
46. Wrth ystyried a ddylid datgelu gwybodaeth mewn amgylchiadau o'r fath, dylech bwysu a mesur eich dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd gyda'r fantais o gadw gwybodaeth eich claf yn gyfrinachol. Efallai yr hoffech ystyried:
- a. A oes posibilrwydd o niwed i eraill os na chaiff gwybodaeth ei datgelu?
 - b. A fyddai rhannu gwybodaeth ddiennw yn ddigon i osgoi niwed?
 - c. I bwy y mae'r wybodaeth yn berthnasol, ac a yw'n sensitif i fwy nag un claf?;
 - d. Beth yw'r effeithiau posibl ar y claf o gael triniaeth yn y dyfodol a/neu ymgysylltu â gwasanaethau gofal iechyd?
47. Os byddwch yn penderfynu datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd, dylech ystyried rhoi gwybod i'ch claf am eich bwriad. Efallai na fydd hyn bob amser yn briodol, fodd bynnag (h.y. os byddai cynghori'r claf yn mynd yn groes i bwrpas y datgeliad), ac os ydych yn credu bod hyn yn wir, dylech gofnodi'r rhesymau pam.
48. Os ydych yn ansicr ynghylch eich penderfyniad mewn unrhyw ffordd, dylech geisio cyngor pellach gan gydweithiwr, cynrychiolydd neu gorff proffesiynol, yswiriwr indemniad neu gynghorydd cyfreithiol annibynnol, gan gymryd gofal i gynnal cyfrinachedd cyn belled ag y bo modd

³Mae'n drosedd o dan adran 38b o Ddeddf Terfysgaeth 2000 i beidio â rhoi gwybod am wybodaeth am weithredoedd terfysgaeth.

Eithriad: Anffurfio organau cenhedlu benywod

49. Yn Lloegr, mae dyletswydd gyfreithiol orfodol i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n cael ei reoleiddio roi gwybod i'r heddlu:
- a. mae plentyn neu berson ifanc (dan 18 oed) wedi dweud wrthyich eu bod wedi dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM); neu
 - b. eich bod wedi gweld arwydd corfforol yn awgrymu bod eich claf (dan 18 oed) wedi bod yn destun FGM.
50. Os byddwch yn dod ar draws sefyllfa o'r fath fel y nodir uchod, rhaid i chi ffonio 101 cyn gynted â phosibl i roi gwybod i'r heddlu ac edrych ar [gyngor yr Adran Iechyd](#) ar y pwnc hwn.
51. Er bod cwmpas ymarfer optometryddion ac optegwyr cyflenwi yn golygu ei bod yn llai tebygol y byddwch yn dod ar draws sefyllfaoedd o'r fath, efallai y bydd cleifion yn dal i ymddiried ynoch chi fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r gofynion adrodd yn yr amgylchiadau hyn.

Adran 4: Cydymffurfio ag ymchwiliadau allanol

52. Mae nifer fach iawn o amgylchiadau lle gallech ddod ar draws ceisiadau am wybodaeth gan awdurdodau sydd â'r pŵer i ofyn am hyn gennych fel rhan o'u rôl. Mae'r rhain yn cynnwys:
- a. yr heddlu ac awdurdodau gorfodi statudol eraill megis Cyllid a Thollau EM;
 - b. Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG;
 - c. y llys neu farnwr/crwner y llys;
 - d. y GOC.
53. Pan fydd awdurdod yn gofyn am wybodaeth am eich cleifion yng nghyswllt ymchwiliad, dylech ofyn i awdurdodau roi manylion i chi am eu pŵer i ofyn am wybodaeth (h.y. o dan ba statud y maent yn gofyn am yr wybodaeth), pa wybodaeth benodol sydd ei hangen arnynt a pham eu bod ei heisiau. Dylech ofyn iddynt ddarparu hyn yn ysgrifenedig.
54. Ar ôl i chi gael y manylion hyn gan yr awdurdod perthnasol, gallwch wedyn ddatgelu gwybodaeth i gyflawni eu cais.
55. Nid oes gan awdurdodau o'r fath hawl awtomatig i'r holl wybodaeth sydd gennych am eich cleifion a dim ond yr wybodaeth leiaf bosibl y dylech ei datgelu i gyflawni'r cais. Os ydych chi'n teimlo bod cais am wybodaeth yn rhy eang, neu os ydych chi'n ansicr ynghylch dilysrwydd y cais, gofynnwch i'r awdurdod sy'n gwneud y cais am ragor o wybodaeth a/neu gofynnwch am gyngor pellach gan gydweithiwr, corff proffesiynol, yswiriwr indemniad neu gynghorydd cyfreithiol annibynnol.
56. Os oes gorchymyn llys neu warant ar waith, efallai y cewch eich gorfodi'n gyfreithiol i ryddhau gwybodaeth benodol. Os felly, dylech geisio cyngor cyfreithiol neu gyngor gan eich yswiriwr indemniad proffesiynol.
57. Wrth ofyn am wybodaeth gennych yng nghyswllt ymchwiliad addasrwydd i ymarfer, bydd y GOC yn nodi ar ba sail statudol y gwneir y cais. Dylech fod yn ymwybodol bod gennych chi, fel un o gofrestrwyr y GOC, ddyletswydd yn unol â Safonau Ymarfer GOC i gydweithredu ag ymchwiliadau GOC, ond mae darpariaethau paragraff 52 uchod yr un mor berthnasol i geisiadau GOC am wybodaeth.

[Title for the flowchart on the next page] **Beth i'w wneud os yw golwg claf yn golygu efallai na fydd yn addas i yrru**

